

Hawdd ei Ddeall



Sgrinio Clyw Babanod **Cymru**
Newborn Hearing Screening **Wales**

Ymweliad eich babi â'r clinig awdioleg



F1: Hydref 24



GIG
CYMRU
NHS
WALES


Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

Sganiwch yma



www.icc.gig.cymru/sgrinio-clyw-babanod

Sut i ddefnyddio'r daflen hon



Mae hon yn daflen Hawdd ei Deall. Mae'r geiriau'n hawdd i'w darllen a'u deall. Gall geiriau **glas trwm** fod yn anodd eu deall. Mae geiriau anodd mewn lliw **trwm** y tro cyntaf maent yn cael eu defnyddio.



Efallai eich bod angen help a chymorth i ddarllen a deall y daflen yma. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu chi.



Mae'r daflen hon ar gael yn Saesneg.

Cynnwys: Beth sydd yn y daflen hon

Pam mae angen prawf clyw arall ar fy mabi?

4

Pa mor debygol ydyw bod gan fy mabi golled clyw?

6

Ynglŷn â'r prawf

8

Rhagor o brofion

12

Canlyniadau

14

Ble alla i gael rhagor o wybodaeth?

16

Cadw'n iach

17

Pam mae angen prawf clyw arall ar fy mabi?



Bydd eich babi yn cael cynnig prawf clyw newydd gydag **awdiolegydd**.

Awdiolegydd yw rhywun sy'n gwybod llawer am glyw.



Mae'n bwysig mynd â'ch babi i'r apwyntiadau hyn.




Nid oedd y profion sgrinio clyw wedi dangos **ymateb clir**.


Nid yw hyn yn golygu na all eich babi glywed.

Mae **ymateb clir** yn golygu nad yw'r baban yn debygol o fod â phroblemau gyda'i glyw.

Efallai na welir ymatebion clir os yw'r canlynol yn wir:




nid oedd eich babi wedi setlo;



mae **hylif** yn y glust o'r enedigaeth;

Gelwir hyn yn glust ludiog. Mae hwn yn gyflwr cyffredin iawn ac yn aml gellir ei drin.



roedd gormod o sŵn ger eich babi pan gafodd y prawf ei wneud; neu



mae gan eich babi **golled clyw**.

Mae hyn yn golygu efallai na fydd eich babi yn gallu clywed cystal ag y dylai.

Pa mor debygol ydyw bod gan fy mabi golled clyw?



Bydd y rhan fwyaf o fabanod yn gallu clywed ond ni all rhai ohonynt glywed.



Gall nifer llai o fabanod sy'n cael eu geni glywed mewn un glust yn unig.



Efallai y bydd babanod yr oedd angen **gofal arbennig** arnynt yn fwy tebygol o fod â cholled clyw.

Gofal arbennig yw pan fydd babi yn cael ei eni'n gynnar neu'n sâl.



Mae'n bwysig canfod yn gynnar os na all eich babi glywed yn dda.

Mae hyn er mwyn i chi allu cael help i chi a'ch babi.



Efallai y bydd babanod nad ydynt yn gallu clywed yn ei chael yn anoddach siarad.



Bydd y rhan fwyaf o fabanod nad ydynt yn gallu clywed yn cael eu geni i deuluoedd sy'n gallu clywed.

Ynglŷn â'r prawf



Bydd apwyntiad yn cael ei anfon atoch.

Bydd hyn o fewn pedair wythnos i ganlyniad prawf **sgrinio** clyw eich babi.



Mae rhai babanod yn cael eu prawf sgrinio ar yr uned gofal arbennig babanod.

Ar gyfer y babanod hyn, bydd yr apwyntiad yn cael ei anfon o fewn wyth wythnos.



Bydd y prawf hwn yn cael ei wneud mewn **clinig ysbyty**.




Bydd awdiolegydd yn gwneud y prawf.



Efallai y bydd yr awdiolegydd yn defnyddio profion gwahanol.

Efallai y caiff **teclyn clust** â blaen meddal ei roi yng nglust eich babi.



Mae hyn yn gwneud sŵn clicio.



Efallai y bydd prawf gwahanol.

Dyma lle rhoddir **padiau gludiog** bach ar ben eich babi a thu ôl i'r clustiau.



Rhoddir clustffonau bach i mewn neu dros glustiau eich babi.

Mae'r profion yn cael eu gwneud pan fydd eich babi'n cysgu.



Bydd yr awdiolegydd yn edrych ar ganlyniadau clyw eich babi ar gyfrifiadur.



Bydd yr awdiolegydd yn dweud canlyniad y prawf wrthych yn syth.



Bydd yn dweud wrthych beth fydd yn digwydd nesaf.

Bydd yn dweud wrthych a all eich babi glywed y synau.




Os na all eich babi glywed y synau, efallai y bydd yr awdiolegydd yn gwneud rhagor o brofion.



Ni fydd y profion hyn yn brifo nac yn niweidio eich babi.



Gall gymryd hyd at 2 awr.



Gallwch aros gyda'ch babi tra bydd y prawf yn cael ei wneud.

Rhagor o Brofion



Efallai y bydd **gwneuthurwr sŵn** bach yn cael ei osod y tu ôl i glust eich babi.



Bydd y prawf hwn yn dangos a oes hylif yn y glust.



Efallai y bydd yr awdiolegydd yn ailadrodd prawf y mae eich babi eisoes wedi'i gael.




Bydd yr awdiolegydd yn ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych.



Os na all eich babi glywed, byddwch yn cael cefnogaeth a rhagor o wybodaeth.



Rydym yn gwybod y gall hwn fod yn gyfnod pryderus.




Siaradwch â'ch awdiolegydd, ymwelydd iechyd, neu rywun rydych yn ymddiried ynddo.

Clyw arferol yn y ddwy glust.



Ni fydd angen rhagor o brofion ar eich babi ar yr adeg hon.



Bydd yr awdiolegydd yn rhoi rhagor o wybodaeth i chi.



Bydd yn dweud wrthych beth i'w wneud os ydych yn poeni.

Canfod colled clyw.



Gallai hyn fod mewn un neu ddwy glust eich babi.



Mae mathau a lefelau gwahanol o golled clyw.



Bydd yr awdiolegydd yn esbonio beth mae hyn yn ei olygu.



Efallai y byddwch yn cael cynnig rhagor o brofion ar gyfer eich babi.

Bydd yr awdiolegydd yn rhoi rhagor o wybodaeth i chi am yr hyn sy'n digwydd nesaf.

Ble alla i gael rhagor o wybodaeth?



Ffôn:

De-ddwyrain Cymru:

029 2184 3568

De-orllewin Cymru:

01792 343364

Gogledd Cymru:

03000 848710



E-bost: sgrinio-clyw-babanod@wales.nhs.uk



Gallwch gysylltu â ni yn Gymraeg neu Saesneg. Bydd yn cymryd yr un faint o amser i'ch ateb, pa bynnag iaith rydych yn ei dewis.



I gael rhagor o wybodaeth am sgrinio a'r profion gwahanol, ewch i'n gwefan:

www.icc.gig.cymru/sgrinio-clyw-babanod



Gallwch hefyd gysylltu â'r Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar.

www.ndcs.org.uk

Ffôn: 020 7490 8656

E-bost: ndcs@ndcs.org.uk



Ewch i gael eich sgrinio pan fyddwch yn cael eich gwahodd.



Sicrhewch eich bod chi a'ch babi'n cael y **brechiadau** diweddaraf pan fyddant yn cael eu cynnig.

Mae **brechlyn** yn feddyginiaeth sy'n eich cadw'n ddiogel rhag dal salwch.



Rhowch y gorau i smygu. Gallwch gael help am ddim i'ch cefnogi i roi'r gorau i smygu.

Ffoniwch Helpa Fi i Stopio ar: **0800 085 2219**



Bwyta bwyd iach.



Symud mwy.



Yfed llai o alcohol.